Community News
LLANEDI COMMUNITY COUNCIL
Winter 2021
Serving **Llanedi**, **Tycroes** and **Hendy**

# WELCOME TO LLANEDI COMMUNITY NEWS

*In this issue:*

- Christmas lighting dates
- Community environmental projects
- Terry Price Award Winner
- Foodbanks

## Councillor Changes

**A recent bi-election resulted in the election of two new community councillors.**

**Geraint Price**, who has a special interest in local sports and the environment, was elected to represent the Hendy and **Geraint Jones** has been chosen to represent the interests of the residents of Tycroes.

We were sad to bid farewell to **Alan (Scouse) Blackley** who recently resigned as councillor. The community had benefitted greatly from Alan's active interest in sport and his work in maintaining our sporting and play facilities. We wish him well for the future.

## Zero to Park Run

**Have you always wanted to run but lack the confidence to start?**

In the New Year, we will be working with a health and wellbeing specialist to deliver zero to parkrun (5k) training in Hendy and Tycroes. The 6 week programme will offer a supporting and encouraging environment for beginners. To find out more contact Joanne on 07525 485 352.



Bloomin' Lovely - Llanedi's new planters

## Blooming Lovely!

**This year has seen the council invest in existing and new planters at key locations in our villages.**

We are particularly pleased to have worked with volunteers in Llanedi, Hendy and Talyclun, where we have supplied the materials and they have planted and nurtured local floral displays.

## Terry Price Award

**We are pleased to announce the winner of the 2021 Terry Price Award.**



Osian Clarke

The Award is presented annually by the community council to recognise excellence on the part of a young person under the age of 25 in any field of endeavour.

The Winner is **Osian Clarke** who is in his third year of studies at the Royal Academy of Music in London and will use the £100 prize money towards text books.




Sweet success at the cake decorating workshops

## Community Cafe

**The cafe, based at Hendy's Reading Room, has re-opened following the recent lockdowns.**

Visitors are, once again, able to enjoy a good range of sweet and savoury foods, expertly prepared by cafe manager, Adele O'Neill. Adele recently ran cake decoration courses for children which proved to be very popular and successful. Other similar activities are planned for the new year. Details will be available on the café's Facebook page and shared on council social media.

## Playground Improvements

Despite delays due to the pandemic, we will be improving and replacing playground equipment in a number of our parks over the next few months including, Tycroes park, Coopers Park, Bronallt Park and Talyclun.

## Festive Cheer!

**Christmas is coming and the Community Council will be once again be providing festive lighting in Hendy, Fforest, Llanedi, Tycroes and Talyclun.**



Lights will be switched on as follows:

- Friday 26th November
  6:30pm **Llanedi**
  7:00pm **Tycroes**
- Friday 3rd December
  6:00pm **Hendy**
  6:40pm **Fforest**

***The Community Council wishes you all a wonderful Christmas and a happy and healthy 2022***

## Annual Report

**We are pleased to announce that our Annual Report is available on the Resources and Policies section of our web site (llanedi.org.uk).**

The report is a useful reflection of what the council has done over the last year, and demonstrates how we are helping our community and contributing to regional and national wellbeing goals.




**One of 3 illustrated maps created for the community council area**

## Illustrated Maps

**We are pleased to announce that the illustrated village maps are now live on our web site llanedi.org.uk.**

These maps capture the spirit of where we live and provide an overview of facilities and amenities.

# Tycroes Growing Together


Volunteers help plant hedgerow

**Work is progressing on this National Lottery Local Places for Nature funded project.**

This seeks to improve the environment and provide more opportunities for community engagement in two of our key greenspaces - Tycroes Park and Woods and Cwmfferws Park. Users of the parks will have noticed some major changes including new steps and improved walkways in the woods, wildflower planting and eco-friendly cutting regimes; the planting of a new hedgerow and a mini orchard.

We've also held a consultation session on a woodland play clearing and have organised popular woodland activity sessions.

A new Friends of Tycroes Parks group has been formed and they are already busy helping to clear paths and looking after the newly planted trees, as well as other jobs. Thay are also organising events such as regular coffee mornings.

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

New volunteers are always welcome. For more information, please use the contact below.

# FOOD BANKS

**It is a sad reality that that many local families have to depend on food banks to meet their basic needs.**

The Community Council fully supports the excellent work of the food banks based in Ammanford, Llanelli, Pontarddulais and the CETMA foodbanks and would encourage local residents to support these, through donations, wherever possible.

Contact details of local food banks are available on the Council web site.

# Spotlight on **Local Clubs**

**Did you know that within the community council area we have a wide range of clubs and societies?**

If you are interested in anything - sports, arts, children's groups, youth clubs, environmental projects, and general fundraising, look at our asset register on the community web site to find out more.

Do you have an idea for a new community group or project?

Contact our Community Development officer to talk through your ideas.

# Tycroes Trails

**This exciting new initiative is creating 4 waymarked and interpreted routes around the village.**

Thanks to funding from Mynydd Y Betws Windfarm, the project is now at the research and design stage. Panels, way markers and downloadable leaflets should be going live in the New Year.

# Hendy Nature Trail

**Whether its species recording, general maintenance, gardening or developing events, the volunteers at the trail have certainly been busy.**

The family day held in August proved very popular and resulted in some great artwork for the gallery space.

The site has also just had its annual cut, using a brand-new lottery funded cut and collect machine which is shared between ourselves, Llanon and Cwmaman town councils.

The volunteers' next big project is to develop scrapes and a pond to further enhance the bio-diversity on site. If you'd fancy helping out, let us know.

You can follow the trail on Facebook @HendyNatureTrail and Flickr. New volunteers are always welcome.


Butterflies making the most of the nature trail

## Hendy Community Centre

**The contract for the new centre has gone out to tender.**

Dependent on response, we hope that works can start shortly. This project is supported by a substantial grant from the Welsh Government.

# Dog Fouling

**This continues to be a cause for concern and the problem is due to a minority of irresponsible pet owners.**

The Council wishes to encourage dog owners to clean up after their animals when using our streets and public places. The possibility of appointing a Dog Warden, with the power to issue fixed penalties to offenders, is being considered.

# Get Arty!

**There has been a great response to the new art club, hosted in the Reading Room in Hendy.**


Alys and her amazing leaf mobile, made at Art Club.

The club, which runs junior and youth/adult sessions on a Monday evening is led by local artist Gaynor Fuge. We are also working on a mural project for the wall of the former Hendy Pool which we hope will engage a range of young people. For more information, please use the contacts below.

## Carmarthenshire Association for Voluntary Services (CAVS)

**Thanks to generous support from CAVS, we have been able to pilot a number of new projects this year.**

These include some of those mentioned in this newsletter including **Coffee and Tots**, **Art Club**, and the **Illustrated Maps**. Thank you CAVS!

They also facilitate the **Carmarthenshire Food Network** - if you are involved in community growing projects, food education, foodshare programmes, hot food projects, farming... anything food related, then there is a place for you in the network. If interested, then please contact **Jamie**

CGGSG ~ CAVS

https://cavs.org.uk/engagement/carmarthenshire-food-network/

# Coffee & Tots

**Thanks to funding from CAVS Community Hubs project, we've been able to pilot coffee and tots groups in our community.**



Aimed at providing a social opportunity for parents and carers with toddlers. The Monday morning sessions in the Reading Room's community cafe have proved to be popular with the adults and tots alike.

## *CALLING LOCAL GROUPS*

we would like to help publicise your events and activities in future newsletters, on social media and via the community web site www.llanedi.org.

So if you meet regularly by Zoom, or intend to meet in person post-Covid, please send us the details.

**Contact Us:**

**Llanedi Community Council is your Council**. You can contact us by getting in touch with our Clerk: **E:** daidoc@yahoo.co.uk **M:** 07971 026493 or Community Development Officer: **E:** Llanedicdo@gmail.com **M:** 07862 218066 or any of your elected councillors.

Information on the Council's actions and activities are available on our website **W:** www.llanedi.org.uk and on social media @LlanediCC

Llywodraeth Cymru Welsh Government

wwcp Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru West Wales Care Partnership

CGGSG ~ CAVS

Gaeaf 2021

# Newyddion Cymunedol
# CYNGOR CYMUNED LLANEDI

Yn gwasanaethu **Llanedi**, **Tycroes** a'r **Hendy**

# CROESO I
## NEWYDDION CYMUNEDOL LLANEDI

*Yn y rhifyn hwn:*

- Dyddiadau cynnau goleuadau'r Nadolig
- Prosiectau amgylcheddol cymunedol
- Enillydd Gwobr Terry Price
- Banciau Bwyd

## Cynghorwyr Newydd

**Yn dilyn yr is-etholiad, a gynhaliwyd yn ddiweddar, etholwyd dau gynghorydd cymuned newydd.**

Etholwyd **Geraint Price**, sydd â diddordeb arbennig yn chwaraeon lleol a'r amgylchedd, i gynrychioli ward yr Hendy, a dewisiwyd **Geraint Jones** i gynrychioli buddion preswylwyr Tycroes.

Trist oedd ffarwelio ag **Alan (Scouse) Blackley** a oedd, yn ddiweddar, wedi rhoi'r gorau i'w swydd fel cynghorydd. Roedd y gymuned wedi elwa'n fawr o ddiddordeb byw Alan ym myd chwaraeon, a'i waith diflino yn cynnal a chadw ein hadnoddau chwaraeon a'n cyfleusterau chwarae. Dymunwn y gorau iddo at y dyfodol.

## Sero i Parkrun

**Ydych chi wastad wedi moyn rhedeg, ond heb yr hyder i ddechrau?**

Yn y Flwyddyn Newydd byddwn yn cydweithio gydag arbenigwr Iechyd a Lles i ddarparu hyfforddiant sero i parkrun (5 cilomedr) yn yr Hendy a Thycroes. Bydd y rhaglen 6-wythnos o hyd yn cynnig amgylchedd gefnogol a chalonogol i ddechreuwyr. **Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Joanne ar 07525 485 352.**


Blodau Hyfryd - dysglau plannu newydd Llanedi

## Blodau Hyfryd!

**Eleni mae'r Cyngor wedi buddsoddi yn y dysglau plannu sydd eisoes yn bodoli, a phrynu rhai newydd, a'i dodi mewn mannau allweddol yn ein pentrefi.**

'Rydym yn arbennig o falch o gael y cyfle i weithio gyda gwirfoddolwyr o Lanedi, yr Hendy a Thalyclun - y Cyngor oedd wedi darparu'r deunyddiau a'r gwirfoddolwyr oedd wedi plannu ac edrych ar ôl yr arddangosfeydd blodeuol.

## Gwobr Terry Price

**Mae'n bleser gennym gyhoeddi enillydd Gwobr Terry Price, 2021.**


Osian Clarke

Mae'r Wobr yn cael ei chynnig yn flynyddol gan y Cyngor Cymuned i gydnabod llwyddiant person ifanc o dan 25 oed, a hynny mewn unrhyw faes ymdrechu.

Yr enillydd eleni yw Osian Clarke. Mae Osian yn ei dryddedd flwyddyn, yn astudio yn yr Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain, a bydd yn defnyddio ei wobr, sef £100, i brynu gwerslyfrau.


Llwyddiant melys yn y gweithdai addurno cacennau

## Café Cymunedol

**Mae'r café, sydd wedi'i leoli yn Ystafell Ddarllen yr Hendy, wedi ailagor yn dilyn y cyfnodau clo ddiweddar.**

Unwaith eto, mae ymwelwyr yn gallu mwynhau ystod eang o fwydydd melys a sawrus, wedi'u paratoi yn arbennig gan Adele O'Neill, rheolwraig y café. Yn ddiweddar roedd Adele wedi cynnal cwrs addurno cacennau i blant, cwrs a oedd wedi profi'n boblogaidd a llwyddiannus iawn. Mae gweithgareddau tebyg eraill wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn newydd. Bydd y manylion ar gael ar dudalen Facebook y café, ac yn cael eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

## Gwella'r Mannau Chwarae

Er gwaethaf yr oedi a achoswyd gan y pandemig, dros y misoedd nesaf byddwn yn gwella ac amnewid yr offer chwarae mewn nifer o'n parciau, gan gynnwys Parc Tycroes, Parc Coopers, Parc Bronallt a Thalyclun.

## Hwyl yr ŵyl!

**Mae'r Nadolig ar y ffordd, ac unwaith eto bydd y Cyngor Cymuned yn gosod goleuadau lliwgar yn yr Hendy, Fforest, Llanedi Tycroes a Thalyclun.**



Bydd y goleuadau yn cael eu cynnau fel a ganlyn:


- Dydd Gwener, Tachwedd 26ain yn **Llanedi** am 6.30yh: **Tycroes** am 7.00yh
- Dydd Gwener, Rhagfyr 3ydd yn yr **Hendy** am 6.00yh: 6:40yh yn **Fforest**

***Mae'r Cyngor Cymuned yn dymuno Nadolig Llawen i bawb, ynghyd â blwyddyn newydd hapus ac iachus yn 2022.***

## Adroddiad Blynyddol

**Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod ein Hadroddiad Blynyddol ar gael i'w weld yn adran Adnoddau a Pholisïau ein gwefan (llanedi.org.uk).**

Mae'r adroddiad yn rhoi darlun defnyddiol o'r hyn y mae'r Cyngor wedi bod yn gwneud dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn dangos sut 'rydym yn helpu ein cymuned ac yn cyfrannu at amcanion lles rhanbarthol a chenedlaethol.



**Un o'r 3 map darluniedig a grewyd ar gyfer ardal y Cyngor Cymuned**

## Mapiau Darluniedig

**Rydym yn falch i gyhoeddi bod y mapiau darluniedig o'r pentrefi ar gael erbyn hyn ar ein gwefan llanedi.org.uk.**

Mae'r mapiau hyn yn dal ysbryd ein pentrefi ni ac yn rhoi trosolwg o'r adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael ynddynt.

## Tyfu Gyda'n Gilydd Tycroes


Gwirfoddolwyr yn helpu plannu perthi

**Mae'r gwaith ar y prosiect hwn, sy'n cael ei ariannu gydag arian o gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur y Loteri Genedlaethol, yn datblygu'n dda.**

Bydd y prosiect yn ceisio gwella'r amgylchedd a darparu mwy o gyfleoedd am ymgysylltu cymunedol mewn dau o'n mannau gwyrdd allweddol - **Parc a Choetir Tycroes** a **Pharc Cwmfferws**. Bydd defnyddwyr y parciau eisoes wedi sylwi ar newidiadau mawr, gan gynnwys grisiau newydd a gwell llwybrau cerdded yn y goedwig, bod blodau gwyllt wedi'u plannu a'r gyfundrefn torri'r glaswellt yn eco-gyfeillgar, a bod perth a pherllan fechan wedi'u plannu.

'Rydym hefyd wedi cynnal ymgynghoriad ynghylch adeiladu lle chwarae ynghanol y goedwig ac wedi trefnu sesiynau gweithgareddau coetir poblogaidd.

Mae grŵp newydd, sef Ffrindiau Parciau Tycroes, wedi'i ffurfio ac maen nhw eisoes yn brysur yn helpu clirio'r llwybrau ac yn edrych ar ôl y coed a blannwyd yn ddiweddar, yn ogystal â gwneud mân ddyletswyddau eraill. Maen nhw hefyd yn trefnu digwyddiadau megis boreuau coffi.

Mae wastad croeso cynnes i wirfoddolwyr newydd. Am ragor o wybodaeth defnyddiwch y cyswllt isod os gwelwch yn dda

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

## BANCIAU BWYD

**Mae'n drist cofnodi bod rhaid i lawer o deuluoedd lleol ddibynnu ar fanciau bwyd er mwyn cwrdd â'u hanghenion sylfaenol.**

Mae'r Cyngor Cymuned yn cefnogi gwaith ardderchog y banciau bwyd a leolir yn Rhydaman, Llanelli a Phontarddulais, a banciau bwyd CETMA, ac yn annog preswylwyr lleol i gefnogi'r rhain drwy gynnig rhoddion, lle bynnag bo hynny'n bosibl.

Mae manylion cyswllt y banciau bwyd lleol ar gael ar wefan y Cyngor.

## Sbotolau ar **Glybiau Lleol**

**Oeddech chi'n gwybod bod dewis eang o glybiau a chymdeithasau yn bodoli yn ardal y Cyngor Cymuned?**

Os oes gnnych ddiddordeb mewn unrhyw beth - chwaraeon, y celfyddydau, grwpiau plant, prosiectau amgylcheddol a chodi arian yn gyffredinol, chwiliwch am y gofrestr asedau ar ein gwefan i ddarganfod mwy.

Oes gennych chi syniad am grŵp cymunedol neu brosiect newydd?

Cysylltwch â'n Swyddog Datblygu Cymunedol i drafod eich syniadau.

## Llwybrau Tycroes

**Mae'r fenter gyffrous hon am greu 4 llwybr o gwmpas y pentref, ac mae pob un ohonynt wedi'u marcio a'u hesbonio.**

Diolch i arian oddiwrth Fferm Wynt Mynydd y Betws, erbyn hyn mae'r prosiect wedi cyrraedd y cyfnod ymchwilio a chynllunio Y gobaith yw y bydd paneli gwybodaeth, arwyddion ffordd a thaflenni y mae modd eu lawrlwytho ar gael yn y Flwyddyn Newydd.

## Llwybr Natur **yr Hendy**

**P'un ai maen nhw wrthi'n cofnodi rhywogaethau, yn gwneud gwaith cynnal a chadw cyffredinol, yn garddio neu'n datblygu digwyddiadau, mae'n sicr bod y gwirfoddolwyr ar y llwybr wedi bod yn brysur.**

Roedd y diwrnod i'r teulu a gynhaliwyd ym mis Awst yn boblogaidd iawn, a chynhyrchwyd peth gwaith celf gwych, i'w arddangos yn yr oriel.

Mae'r safle newydd gael ei doriad blynyddol, gan ddefnyddio peiriant torri a chasglu newydd sbon a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol, a sy'n cael ei rannu rhyngom ni, Cyngor Llannon a Chyngor Tref Cwmaman.

Mae prosiect mawr nesaf y gwirfoddolwyr yn cynnwys creu pyllau bas a phwll er mwyn gwella ymhellach bioamrywiaeth ar y safle. Os 'rydych chi am ein helpu ni, rhowch wybod.

Gallwch ddilyn hynt y llwybr ar Facebook @HendyNatureTrail a Flickr. Mae wastad croeso cynnes i wirfoddolwyr newydd.


Pili-palod yn gwneud y gorau o'r llwybr natur.

## Canolfan Gymunedol yr Hendy

**Mae'r contract am y ganolfan newydd wedi'i osod ar dendr.**

Yn ddibynnol ar yr ymateb, y gobaith yw y bydd y gwaith yn dechrau cyn bo hir. Mae'r prosiect hwn wedi'i gefnogi gan grant sylweddol o Lywodraeth Cymru.

## Baeddu gan Gŵn

**Mae'r mater hwn yn dal i fod yn gonsyrn, ac mae'r broblem yn cael ei hachosi gan leiafrif o berchnogion anghyfrifol.**

Mae'r Cyngor am annog perchnogion cŵn i gasglu baw eu hanifeiliaid pan fyddant yn defnyddio'n strydoedd a'n mannau cyhoeddus.

Mae'r posibilrywdd o benodi Warden Cŵn, yn meddu ar y grym i roi cosb benodedig i droseddwyr, yn cael ei ystyried.

## Closiwch at Gelf!

**Mae'r ymateb i'r clwb celf newydd, a gynhelir yn yr Ystafell Ddarllen yn yr Hendy, wedi bod yn wych.**


Alys a'r symudyn deilen rhyfeddol, a gynhyrchwyd yn y Clwb Celf.

Mae'r clwb, sy'n darparu sesiynau iau a sesiynau i ieuenctid/oedolion ar nosweithiau Llun, yn cael ei arwain gan yr artist lleol Gaynor Fuge. 'Rydym hefyd yn gweithio ar brosiect i greu murlun ar wal cyn Bwll Nofio yr Hendy, yn y gobaith y bydd hyn yn ymgysylltu ag ystod o bobl ifanc. Os am wybodaeth bellach, defnyddiwch y cysylltiadau isod os gwelwch yn dda.

## Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr (CGGSG)

**Diolch i gefnogaeth hael CGGSG, eleni 'rydym wedi llwyddo i beilota nifer o brosiectau newydd.**

Mae'r rhain yn cynnwys rhai o'r prosiectau a soniwyd amdanynt yn y cylchlythyr hwn, gan gynnwys **Coffi a Phlant Bach**, y **Clwb Celf** a'r **Mapiau Darluniedig**. Diolch CGGSG!

Maen nhw hefyd wedi hwyluso Rhwydwaith Fwyd Sir Gâr - Os 'rydych chi'n ymwneud â phrosiectau megis tyfu bwyd cymunedol, addysg fwyd, rhaglenni rhannu bwyd, prosiectau bwyd twym, ffermio... unrhyw beth sy'n gysylltiedig â bwyd, yna mae lle i chi yn y rhwydwaith.

Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â **Jamie** os gwelwch yn dda:

CGGSG ~ CAVS

https://cavs.org.uk/engagement/carmarthenshire-food-network/

## Coffi a Phlant Bach

**Diolch i arian oddiwrth brosiect Hybiau Cymunedol CGGSG, 'rydym wedi llwyddo peilota grwpiau coffi a phlant bach yn ein cymuned.**



Bwriad y prosiect yw darparu cyfle cymdeithasol i rieni a gofalwyr sy'n edrych ar ôl plant bach. Mae'r sesiynau, a gynhelir ar fore Llun yn y café cymunedol yn yr Ystafell Ddarllen, wedi profi'n boblogaidd gydag oedolion a phlant bach fel ei gilydd.

## *GALW AR GRWPIAU LLEOL*

Hoffai'r Cyngor eich helpu chi i roi cyhoeddusrwydd i'ch digwyddiadau a'ch gweithgareddau drwy eu cynnwys yng nghylchlythyron y dyfodol, ar y cyfryngau cymdeithsol a thrwy gyfrwng y safle we gymunedol, www.llanedi.org

Felly, os 'rydych yn cwrdd yn gyson ar Zoom, neu'n bwriadu cwrdd wyneb-yn-wyneb ar ôl bod Covid drosodd, a wnewch chi anfon eich manylion aton ni.

### Cysylltwch â ni:

**Eich Cyngor CHI yw Cyngor Cymuned Llanedi.** Gallwch gysylltu â ni drwy gyfathrebu gyda'r Clerc: **E:** daidoc@yahoo.co.uk **FF:** 07971 026493 neu'r Swyddog Datblygu Cymunedol: **E:** Llanedicdo@gmail.com **FF:** 07862 218066 neu unrhyw un o'ch cynghorwyr etholedig.

Mae gwybodaeth ynghylch gweithgareddau'r Cyngor ar gael ar ein gwefan: **W:** www.llanedi.org.uk ac ar y cyfryngau cymdeithasol @LlanediCC

Llywodraeth Cymru Welsh Government

wwcp Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru West Wales Care Partnership

CGGSG ~ CAVS